ATODLEN 4

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4

# RHAN 1

## Cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull gydag eraill

### Aelwydydd estynedig

**3.**—(1) Caiff aelwyd un oedolyn ac aelwyd arall gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion gytuno.

(3) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig **[**[F1]ar unrhyw un adeg**]** .

(4) Pan fo aelwyd un oedolyn wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gyda hyd at—

(a) 3 aelwyd arall o dan baragraff 3 o Atodlen 1, neu

(b) 2 aelwyd arall o dan—

(i) paragraff 3 o Atodlen 2, neu

(ii) paragraff 3 o Atodlen 3,

**[**[F2](“yr aelwyd estynedig flaenorol”),**]** dim ond rhwng yr aelwyd un oedolyn ac 1 o'r aelwydydd eraill hynny y caniateir gwneud cytundeb o dan y paragraff hwn **[**[F3]oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o'r aelwyd un oedolyn gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag aelod o'r aelwydydd hynny gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig flaenorol**]** .

(5) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(6) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall **[**[F4]oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig â'r aelwyd honno**]** .

(7) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 4 para. 3(3) wedi eu mewnosod (30.1.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/103), rhlau. 1(2), **2(6)(c)(i)**

**F2** Geiriau yn Atod. 4 para. 3(4) wedi eu mewnosod (30.1.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/103), rhlau. 1(2), **2(6)(c)(ii)(aa)**

**F3** Geiriau yn Atod. 4 para. 3(4) wedi eu mewnosod (30.1.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/103), rhlau. 1(2), **2(6)(c)(ii)(bb)**

**F4** Geiriau yn Atod. 4 para. 3(6) wedi eu mewnosod (30.1.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/103), rhlau. 1(2), **2(6)(c)(iv)(bb)**

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** Atod. 4 para. 3 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/01/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.